

CANLLAWIAU AR DDIOGELWCH RHAG TÂN AR GYFER SAFLEOEDD CARAFANNAU



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

tancgc.gov.uk

NOD Y NODYN CYFARWYDDYD DIOGELWCH RHAG TÂN HWN YW RHOI GWYBOD I CHI SUT I GYFLAWNI EICH CYFRIFOLDEBAU DIOGELWCH RHAG TÂN O RAN GORCHYMYN DIWYGIO RHEOLEIDDIO (DIOGELWCH TÂN) 2005 SY'N BERTHNASOL I SAFLEOEDD CARAFANNAU AC SY'N CAEL EI ORFODI GAN YR AWDURDOD TÂN.



Y 'person cyfrifol' yw'r sawl sydd â'r cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r Gorchymyn. Mewn gweithle, y cyflogwr yw hwn, ynghyd ag unrhyw berson arall a allai fod â rheolaeth dros unrhyw ran o'r eiddo, e.e. y deiliad neu'r perchennog.

Mae Erthygl 9 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn nodi bod yn rhaid i'r Person Cyfrifol wneud asesiad addas a digonol o'r risgiau y mae pobl berthnasol yn agored iddynt, a hynny i ddiben adnabod y "rhagofalon tân cyffredinol" y mae'n rhaid iddo ymorol amdanynt er mwyn cydymffurfio â'r gofynion a'r gwaharddiadau a osodir arno gan y Gorchymyn.

Os chi yw'r person cyfrifol, rhaid i chi drefnu i berson cymwys gynnal asesiad risgiau tân sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch pob 'person perthnasol' yn achos tân. Dylai roi sylw neilltuol i'r rhai sydd mewn perygl penodol, er enghraifft pobl anabl, y rheiny yr ydych yn gwybod bod ganddynt anghenion arbennig, a phlant, a rhaid i'r asesiad gynnwys ystyriaeth o unrhyw sylwedd peryglus sy'n debygol o fod ar y safle. Bydd eich asesiad risgiau tân yn eich helpu i nodi risgiau y gellir eu dileu neu eu lleihau, a bydd yn cyfrannu at natur a maint y rhagofalon tân cyffredinol y mae angen i chi ymorol amdanynt.

RHAGOFALON TÂN CYFFREDINOL

Mae rhagofalon tân cyffredinol yn cynnwys mesurau tebyg i'r canlynol:

1. y dull o ddianc yn achos tân;
2. y modd o sicrhau'r dull o ddianc, gan gynnwys trefniadau diffodd tân;
3. y dull o roi rhybudd yn achos tân; a
4. rheoli mesurau (1)-(3) uchod, sy'n cynnwys hyfforddiant staff, ymarferion tân, a phrofi/chynnal a chadw cyfarpar diffodd tân a larymau tân.

Yn rhan o'r asesiad, rhaid i chi sicrhau bod cynllun argyfwng effeithiol yn cael ei baratoi. Dylai'r holl bobl yr effeithir arnynt fod yn ymwybodol o'r cynnwys a chael hyfforddiant yn y camau gweithredu i'w cymryd yn achos tân.

Tynnir eich sylw at y cyhoeddiad **Fire Safety Guide to Open Air Events and Venues** ISBN-13: 978 1 85112 823 5, sy'n darparu gwybodaeth i'r person cyfrifol am Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar wefan Gwasanaeth

Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (<http://www.mawwfire.gov.uk/Cymraeg/Diogelwch/Diogelwch-Tan-Busnesau/Pages/Cyfraith-Diogelwch-Tan-a-Chanllawiau-ar-gyfer-Busnes.aspx>)

Mae templed asesiad risgiau tân a allai fod yn addas at eich defnydd ar gael yn yr adran Diogelwch Busnes ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (www.tancgc.gov.uk)

TREFNIADAU DIOGELWCH TÂN

Canlyniad disgwylidig i asesiad risgiau tân addas a digonol ar gyfer safleoedd carafannau a gwersylla fyddai bod y mesurau canlynol, neu fesurau yr un mor effeithiol, ar waith:



- Dylai pwyntiau tân fod wedi cael eu gosod fel nad oes yr un garafán nac adeilad ar y safle ymhellach na 30 m o bwynt tân. Dylai'r pwyntiau fod mewn adeiladweithiau gwrthdywydd, hawdd cyrraedd atynt, a dylent fod wedi eu marcio'n glir ac yn amlwg gyda'r geiriau "PWYNT TÂN".



- Lle darperir safbibellau dŵr, a lle bo yna gyflenwad dŵr o bwysedd a llif digonol i chwistrellu dŵr

cyn belled â thua 5 m o'r ffoenell, dylai safbibellau dŵr o'r fath fod wedi eu gosod ym mhob pwynt tân. Dylai fod yno hefyd olwyn sy'n cydymffurfio â Safon Brydeinig 5306 Rhan 1, ynghyd â phiben nad yw'n fyrrach na 30 m o hyd, sy'n meddu ar fodd o'i chysylltu â safbibell ddŵr (cysylltiad edau sgriw yn ddelfrydol) ac iddi gyflenwad dŵr o bwysedd digonol, ac sy'n diweddu mewn ffoenell fechan a reolir â llaw. Dylai'r pibenni fod mewn bocsydd wedi'i baentio'n goch a'i farcio â'r geiriau "OLWYN PIBEN".

- Lle na ddarperir safbibellau dŵr ond bod cyflenwad dŵr o bwysedd a llif digonol ar gael, dylai hydrantau tân fod wedi cael eu gosod bellter o 100 m o bob llain carafán. Dylai'r hydrantau gydymffurfio â Safon Brydeinig 750. Ni ddylai mynediad at yr hydrantau a chyflenwadau dŵr eraill fod yn cael eu rhwystro na'u cuddio.



- Lle na ddarperir safbibellau dŵr, neu le nad yw pwysedd neu lif y dŵr yn ddigonol, dylai diffoddyddion dŵr (2 x 9 litr) fod wedi cael eu gosod ym mhob pwynt tân.



- Dylai dull o seinio rhybudd yn achos tân fod wedi ei ddarparu ym mhob pwynt tân. Gallai hyn fod ar ffurf seinydd a weithredir â llaw, e.e. triongl metel gyda thräwr, gong neu seiren llaw. Dylid ceisio cyngor gan yr awdurdod tân ar system briodol.

- Dylai pob larwm a chyfarpar diffodd tân fod wedi cael eu gosod, a dylent fod yn cael eu profi a'u cynnal a'u cadw gan berson cymwys, a hynny i safon lle maent yn gweithio'n iawn. Dylent hefyd fod ar gael i'w harchwilio gan yr awdurdod gorfodi, neu gan rywun ar ei ran. Dylai cofnodlyfr fod yn cael ei gadw i gofnodi pob prawf ac unrhyw gamau adfer.



- Dylai pob cyfarpar sy'n debygol o gael ei ddifrodi gan rew fod wedi ei ddiogelu.
- Dylai rhybudd clir ac amlwg fod yn cael ei ddarparu a'i gynnal ym mhob pwynt tân i ddynodi'r camau i'w cymryd yn achos tân, ynghyd â lleoliad y ffôn agosaf. Dylai'r hysbysiad hwn gynnwys y canlynol:

Os byddwch yn darganfod tân:

1. Sicrhewch fod y garafán neu'r adeilad dan sylw ar y safle yn cael ei wacáu
2. Seiniwch rybudd
3. Ffoniwch y frigâd dân (mae'r ffôn agosaf wedi'i leoli)
4. Ewch i'r afael â'r tân gan ddefnyddio'r cyfarpar diffodd tân a ddarperir, os yw'n ddiogel i chi wneud hynny.
5. Mae er budd holl ddeiliaid y safle hwn iddynt fod yn gyfarwydd â'r drefn uchod a'r dull o weithredu'r larwm tân a'r cyfarpar diffodd tân.



- Dylai glaswellt hir a llystyfiant fod yn cael ei dorri'n rheolaidd ac yn aml, lle bo angen, er mwyn ei atal rhag bod yn berygl tân i garafannau, adeiladau neu osodiadau eraill ar y safle. Dylai unrhyw laswellt neu llystyfiant a dorrir fod yn cael ei symud o gyffiniau carafannau.

- Ni ddylai'r gofod o dan garafannau a rhyngddynt fod yn cael ei ddefnyddio i storio deunyddiau llosgadwy.



- Dylai ffôn hygyrch fod ar gael ar y safle i ffonio'r gwasanaethau brys. Dylai hysbysiad ger y ffôn gynnwys cyfeiriad y safle.